**ELL 14- 01(mins)**

**Minutes of the Education and Lifelong Learning Committee**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 17 Hydref 2001

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |

| | |
|---|---|
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, yr Is-adran Rheoli Ysgolion |
| Keith Davies | Pennaeth, yr Is-adran Safonau a Pherfformiad |
| Mike Harper | Pennaeth, yr Is-adran Dysgu ac Arweinyddiaeth |
| Elizabeth Williams | Pennaeth, y Tîm Polisi Ieuenctid |
| Sue Lovell | Yr Is-adran Dysgu ac Arweinyddiaeth |
| Alun Huws | Yr Is-adran Dysgu ac Arweinyddiaeth |
| Tony Widdrington | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Ymddiheuriadau**

Dim

**Dirprwyadau**

Dim

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Mick Bates Athro Cymwysedig, Aelod o'r Cyngor Addysgu Cyffredinol,

ei wraig yn Bennaeth Ysgol

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd; Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Gareth Jones Athro Cofrestredig; ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Alun Pugh Mae gwraig Alun Pugh yn ddarlithydd mewn coleg addysg bellach

**Sesiwn Cyhoeddus**

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

- Gobeithiai'r Cadeirydd fod yr Aelodau wedi mwynhau egwyl gynhyrchiol yn ystod toriad yr haf a chroesawodd Mick Bates AC (Democratiaid Rhyddfrydol - Sir Drefaldwyn) yn aelod newydd o'r Pwyllgor. Yr oedd Mr Bates yn cymryd lle Eleanor Burnham AC (Democratiaid Rhyddfrydol – Gogledd Cymru). Diolchodd y Cadeirydd i Eleanor Burnham am ei chyfraniad i waith y Pwyllgor.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor a oedd yn fodlon i'w ystyriaeth o adroddiad drafft yr Adolygiad Polisi Addysg Uwch gael ei chynnal mewn sesiwn caeedig. Cwestiynodd Mick Bates yr angen am hyn. Eglurodd y Cadeirydd fod y sesiynau gwerthuso blaenorol wedi eu cynnal yn breifat, fel y gallai'r Aelodau drafod materion dadleuol yn agored, heb godi disgwyliadau ffug neu ofnau oddi mewn i'r sector. Aeth y Cadeirydd ymlaen i egluro bod y Pwyllgor Addysg Ôl-16 wedi gosod y gynsail o ystyried adroddiad drafft ei adolygiad polisi diwylliant mewn sesiwn caeedig. Dywedodd Lorraine Barrett ei bod yn ymddangos y byddai'n briodol i'r Pwyllgor barhau i drafod yr adroddiad drafft mewn sesiwn caeedig gan fod yr holl dystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad wedi ei gwrando mewn sesiynau cyhoeddus.
- *Ar ôl peth trafodaeth, penderfynodd y Pwyllgor, yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi), ymgymryd â'i ystyriaeth o'r adroddiad drafft ar gyfer yr Adolygiad Addysg Uwch mewn sesiwn caeedig. Nododd y Cadeirydd bryderon Mick Bates ynghylch y penderfyniad hwn.*

**Eitem Un: Adroddiad y Gweinidog (45 munud)**

***Papurau: ELL 14-01(p.1) Adroddiad y Gweinidog***

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad misol i'r Pwyllgor. Nododd y Cadeirydd fod y Gweinidog wedi darparu llawer o wybodaeth yn ei hadroddiad ac anogodd yr Aelodau i ddewis y pynciau'n ofalus, fel y gellid eu harchwilio'n fanwl. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn dymuno i'r Pwyllgor gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau a fu ers cyfnod y toriad a thynnodd sylw at rai materion allweddol yn ei hadroddiad. Ymhlith y rhain yr oedd:

- Yr oedd ELWa wedi cyhoeddi ei Strategaeth Gorfforaethol. Anogodd y Gweinidog yr Aelodau i

edrych arni. Teimlai'r Gweinidog ei bod yn bwysig bod penderfyniadau ar gyllido yn dilyn y strategaethau a oedd eisoes ar waith.

- Byddai gwerthusiad o'r gwasanaethau a ddarperid gan Corus Debt Relief Counselling.
- Yr oedd yr Ymgynghoriad ar y ddogfen "Y Wlad sy'n Dysgu" i ddod i ben ar 31 Hydref 2001 a phwysleisiodd y Gweinidog y byddai o gymorth pe byddai'r Aelodau yn cyfrannu eu sylwadau yn ystod y drafodaeth ar ei hadroddiad yn y cyfarfod hwn.
- Disgwylid cyhoeddi Mesur Addysg llywodraeth y DU tua chanol i ddiwedd Tachwedd; byddai'n cael ei ystyried gan y Pwyllgor Rhaglen Ddeddfwriaethol yn San Steffan. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor bod tîm Mesur o Is-adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio'n agos â'u cydweithwyr yn San Steffan ac y byddai'n derbyn adroddiadau ar y cynnydd.
- Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch o fod wedi lansio Pecyn Gwybodaeth y Fagloriaeth Gymreig yng Ngholeg Gwent ar 27 Medi. Rhoddodd wybod bod naw ysgol/coleg eisoes wedi mynegi diddordeb cadarnhaol mewn rhagbrofi'r Fagloriaeth Gymreig.
- Yr oedd adroddiad ar yr ymarfer ymgynghori i adolygu cyhoeddi Tablau Perfformiad wedi ei ddarparu i'r Aelodau. Nid oedd y Gweinidog wedi gallu gwneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar ddiwedd y tymor diwethaf.
- O Fedi 2001, gallai athrawon yn gyffredinol wneud cais am gyllid y gellid ei ddefnyddio i gynnal amryw o gyfleoedd Datblygu Proffesiynol Parhaus â'u gogwydd at yr unigolyn.
- Yr oedd yr Ymgynghoriad ar y drafft o Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Ffioedd) 2001 yn mynd rhagddo ac os dymunai'r Aelodau wneud sylwadau dylent eu hanfon at y Clerc erbyn 9 Tachwedd 2001.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n anfon nodyn ysgrifenedig at Aelodau'r Pwyllgor ynghylch ymarfer ymgynghori ar y cyd y DU ar ddyfodol y Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n croesawu hynny. Heddiw, byddai llywodraeth y DU yn cyhoeddi datganiad polisi. Mewn perthynas â sefyllfa'r Cyrff Hyfforddi Cenedlaethol yng Nghymru, dywedodd y Gweinidog ei bod yn chwilio am ateb a wnaethpwyd yng Nghymru. Byddai hyn yn cyd-fynd hefyd â'r drafodaeth ar y Strategaeth Datblygu Economaidd Cenedlaethol/Sgiliau a amserlennwyd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor ar 14 Tachwedd.
- Cyhoeddodd y Gweinidog, yng ngolwg cyflwyno'r trefniadau rheoli perfformiad newydd i athrawon yng Nghymru, na ddylai'r cynigion atal athrawon rhag cael dyfarniadau ar ôl y trothwy.

1.2 Wedyn trafododd y Pwyllgor y materion canlynol:

- Pryderai rhai Aelodau na fu adroddiad gan y Gweinidog ar y cynnydd ar weithredu camau cychwynnol y strategaeth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh); cytunwyd gan y Pwyllgor yn ei adroddiad fod tri chorff i'w sefydlu erbyn y Gwanwyn 2001. Mynegodd Jonathan Morgan bryder a galwodd am fwy o ymdeimlad o frys ar y mater hwn. Dywedodd y buasai oedi o tua blwyddyn oddi mewn i sector a all newid o fis i fis. Atebodd y Gweinidog fod materion yn gysylltiedig â phenodiadau cyhoeddus a chaffael wedi profi'n fwy problemus na'r disgwyl o ganlyniad i weithredu oddi mewn i weithdrefnau ar wahân. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith ei bod yn rhannu rhwystredigaeth yr Aelodau ar y mater hwn. Gwahoddwyd Keith Davies (swyddog yn Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad) i ymateb a dywedodd fod amryw o gyrff wedi eu gwahodd i enwebu cynrychiolwyr i'r Panel Ymgynghorol. Byddid hefyd yn gwahodd unigolion a chanddynt brofiad neu arbenigedd penodol i ymuno â'r Panel. Yr oedd y Panel Ymgynghorol i fod i gyfarfod am y tro cyntaf yn Nhachwedd 2001. Yr oedd hysbysebion ar gyfer y Tasglu TGCh a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu i Gymru wedi eu gosod yng Nghylchgrawn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd. Yr oedd proses Cylchgrawn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd yn ddarostyngedig i amserlen benodol. Yr arwyddion ar hyn o bryd oedd ei bod yn annhebygol y câi'r tasglu TGCh a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu i Gymru eu sefydlu cyn Chwefror 2002 ar y cynharaf. Rhan o swyddogaeth y Panel

Ymgynghorol fyddai ffurfio barn ar y cynigion a gyflwynid gan y cyrff hynny sydd yn dymuno ymgymryd â rolau'r Tasglu TGCh a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu i Gymru.

- Holodd yr Aelodau a oedd y broses caffael yn newydd. Atebodd Keith Davies fod proses Cylchgrawn Swyddogol y Cymunedau Ewropeaidd a'i hamserlenni cysylltiedig wedi eu hen sefydlu: yr oedd gweithrediad argymhellion y Pwyllgor ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu wedi eu dal oddi mewn i'r amserlen caffael. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith nad oedd y materion hyn yn rhwystro'r Strategaeth Dysgu TGCh: yr oedd ymrwymiad i sicrhau bod pob ysgol ar-lein erbyn Medi 2002. Cyn gynted ag y câi'r Panel ei benodi, gellid gwneud cynnydd. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor iddi fod yn gweithio'n agos gydag Andrew Davies AC, y Gweinidog dros Gyfathrebu Electronaidd ac Edwina Hart AC, y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau. Crybwyllodd y Cadeirydd y byddai'r Pwyllgor, gyda lwc, yn ystyried TGCh mewn ysgolion yn Nhachwedd, fel yr amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith.
- Tynnodd un Aelod sylw at y ffaith mai siomedig fu'r ymateb i'r ymgynghoriad ar reolaeth perfformiad i athrawon, gan mai naw o Awdurdodau Addysg Lleol yn unig a oedd wedi ymateb. Pwysleisiodd y Gweinidog fod gwahanol ymgynghoriadau'n apelio at wahanol gynulleidfaoedd, yn enwedig os oedd achwyniad. Hefyd, gan ei fod yn ymgynghoriad arbenigol, byddai llawer o athrawon wedi dibynnu ar eu cymdeithasau proffesiynol i ymateb ar eu rhan. Mewn perthynas ag Awdurdodau Addysg Lleol, byddai llawer ohonynt wedi rhoi cyfrif am/amserlennu diwrnodiau hyfforddiant mewn swydd ychwanegol eisoes. Bu ansawdd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn uchel iawn a bu cefnogaeth i'r trefniadau.
- Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog wneud sylw ar y mesurau a oedd ar gael i gynorthwyo ysgolion i dalu costau cynyddol cyflawni Arholiadau Safon Uwch Gyfrannol. Atebodd Richard Davies mai cost yr arholiadau oedd un o'r ffactorau a gymerid i ystyriaeth fel rhan o'r grant setliad refeniw cyffredinol.
- Roedd cryn bryder bod rhai athrawon a dderbyniodd eu taliadau trothwy wedi cael problemau â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (GTCW) oherwydd diffyg ystyriaeth o'u cymwysterau. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn ofynnol i'r athrawon gyrraedd Statws Athro Cymwysedig (QTS) er mwyn cofrestru â'r Cyngor a derbyn taliadau trothwy. Daeth rhai achosion i'r amlwg yn ystod y broses o gofrestru â'r Cyngor lle nad oedd yr athro wedi cyrraedd Statws Athro Cymwysedig (QTS) am resymau technegol. Gofynnwyd i'r Gweinidog hefyd a fyddai'r Cyngor Addysgu Cyffredinol yn cynnwys unrhyw gymwysterau eraill wrth bennu Statws Athro Cymwysedig ac a oedd amser wedi'i bennu ar gyfer hyn. Ymatebodd y Gweinidog gan ddweud nad oedd amserlen bendant hyd yn hyn, ond bod achosion gwahanol yn cael eu harchwilio er mwyn canfod a oedd angen gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth y Cynulliad yn ymwneud â Statws Athro Cymwysedig. Dywedodd y Gweinidiog bod y broses o gofrestru yn dal i fod ar waith.
- Yr oedd pryder mawr ymysg yr Aelodau ynghylch datganiad diweddar y Comisiynydd Plant bod ysgolion yn cael eu codi ar dir halogedig. Pwysleisiodd y Gweinidog ei bod yn cymryd y pryder hwn o ddifrif calon ond nad oedd yn fater addysg. Yr oedd yn fater i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol, yr Awdurdodau Iechyd a'r Awdurdodau Iechyd Amgylcheddol. Holodd un Aelod pwy a ddylai fod yn gyfrifol oddi mewn i'r Cynulliad Cenedlaethol. Atebodd y Gweinidog fod y cyfrifoldebau wedi eu nodi yn y gyfraith yn yr achos hwn. Yr oedd y Comisiynydd Plant wedi ysgrifennu at yr Awdurdodau Lleol yng Nghonwy a Chasnewydd – felly yr oedd y sefyllfa hon yn un i'w datrys gan y ddau awdurdod hyn. Tynnodd y Gweinidog sylw at bwysigrwydd presenoldeb Comisiynydd Plant, gan y gellid codi materion sydd yn ymwneud â phlant mewn modd difrifol. Yr oedd yn gymorth i sicrhau nad oedd rolau'r priod awdurdodau yn cael eu lleihau o gwbl. Yr oedd y Cadeirydd a'r Gweinidog yn teimlo ei fod yn fater nad oedd yn briodol i'r Pwyllgor ymdrin ag ef. Nododd Aelod arall fod Cyngor Conwy wedi ymrwymo i wella cyflwr adeiladau ysgolion.
- Cododd un Aelod y mater o ba un a oedd y Fenter Cyllid Preifat ar gyfer prosiectau ysgol yn cyfrif fel gwariant cyfalaf addysg ac a oedd o ganlyniad oddi mewn i gwmpas cyfrifoldebau'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Eglurodd y Gweinidog fod y Fenter Cyllid Preifat wedi ei hariannu gan

refeniw drwy setliad refeniw llywodraeth leol a'i bod felly'n fater i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid a Chymunedau.

- Cododd y mater o ba un a fyddai trosglwyddo cyllido ôl-16 i ELWa-y Cyngor Cenedlaethol yn amharu ar gyllido cyn-16, gan fod rhai Awdurdodau Addysg Lleol wedi mynegi pryder ar y mater hwn. Dywedodd y Gweinidog fod negodiadau'n mynd rhagddynt rhwng Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol ar y cytundeb terfynol ar y trosglwyddiad. Yr oedd er budd i bawb sicrhau nad oedd neb ar ei golled o ganlyniad i'r trosglwyddiad. Yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol yn gweithio ar y cyd â'i gydweithwyr mewn llywodraeth leol i sicrhau'r amhariad lleiaf.
- O safbwynt trosglwyddo £1.3 miliwn at Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ar gyfer treialu prosiectau Datblygu Proffesiynol Parhaus (CPD), gofynnodd un aelod ai Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru fyddai'n rheoli prosiectau o'r math hyn yn y dyfodol. Dywedodd Richard Davies bod y polisi wedi datblygu - gan symud ymlaen at ddatblygu proffesiynol i athrawon unigol yn hytrach na grwpiau o athrawon yn unig. Roedd Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru yn bwriadu defnyddio'r cyllid hwn i dreialu cynllun ar gyfer datblygu proffesiynol i athrawon unigol. Cafodd y £1.3 miliwn ei drosglwyddo o Linell Wariant y Gyllideb (BEL) ar gyfer 'Rheoli Perfformiad Athrawon', ond nid oedd hyn yn golygu y byddai'r Cyngor yn gyfrifol am berfformiad athrawon. Gofynnodd un aelod a fyddai'r buddsoddiad hwn yn cyfrannu at wariant cyfalaf a dywedodd y Gweinidog wrth yr aelodau y byddai'n cyfrannu at wariant refeniw.
- Holodd y Cadeirydd i ba raddau yr oedd y Gweinidog wedi ceisio dylanwadu ar ffurf y Mesur Addysg: a fyddai adran i Gymru neu frawddegau/cymalau a fyddai'n disgrifio'r hyblygrwydd a'r rhyddid i Gymru. Pwysleisiodd y Gweinidog fod 'Y Wlad sy'n Dysgu' a 'Schools Achieving Success' yn amlwg yn ddogfennau gwahanol. Cyfarfuasai ag Estelle Morris (Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Sgiliau), Stephen Timms (Gweinidog Safonau Ysgolion) a Paul Murphy (Ysgrifennydd Gwladol Cymru) ac yr oedd yn ffyddiog y byddai dyheadau Cymru yn cael eu hyrwyddo. Ni fyddai cynnwys y Mesur yn wybyddus hyd nes y byddai'r Pwyllgor Rhaglen Ddeddfwriaethol wedi ystyried y cynigion a'r Mesur wedi ei gyhoeddi. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith y byddai'r Papur Gwyn yn Lloegr yn canolbwyntio ar ysgolion, felly yr oedd y ddeddfwriaeth yn debygol o effeithio ar ysgolion. Sicrhawyd y Pwyllgor gan y Gweinidog ei bod wedi treulio cryn amser yn paratoi'r cymalau ar gyfer y Mesur gan helpu i sicrhau gwireddu (cysyniad) 'Y Wlad sy'n Dysgu'. Ni fyddai'r agenda i Gymru'n gwbl eglur hyd nes y derbynnid yr holl ymatebion o'r ymgynghoriad ar 'Y Wlad sy'n Dysgu'.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog wneud sylw ynghylch a fyddai dogfen a strategaeth 'Y Wlad sy'n Dysgu' yn gyson â chynlluniau strategol ELWa, ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, er enghraifft. Tynnodd y Gweinidog sylw at y ffaith bod gan ELWa gyfrifoldeb dros y strategaeth gyffredinol i addysg ôl-16, a bod strategaeth TGCh y Cynulliad Cenedlaethol yn canolbwyntio ar ysgolion. Os oedd unrhyw anghysonderau i'w canfod, dywedodd y Gweinidog y byddai'n ddiolchgar o gael unrhyw adborth gan yr Aelodau. Pwysleisiwyd bod 'Y Wlad sy'n Dysgu' yn uchelgais mawr sydd yn nodi'r strategaeth ar gyfer addysg yng Nghymru am y naw mlynedd nesaf. Byddai'n cyfeirio'r gwariant ar addysg a gwariant arall y Cynulliad Cenedlaethol dros y cyfnod hwnnw. Ychwanegodd Richard Davies fod Strategaeth Gorfforaethol ELWa ar lefel is na chynllun strategol y Cynulliad Cenedlaethol – felly yr oedd cysondeb yn holl bwysig.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd Adran Addysg y DU wedi cydweithredu â'r Gweinidog o ran ei pharodrwydd ynghylch cynllun y Mesur ac o ran derbyn gwirioneddau datganoli. Atebodd y Gweinidog fod llawer iawn o gydweithredu wedi bod. Yr oedd dwy neges wahanol yn y ddwy ddogfen 'Y Wlad sy'n Dysgu' a 'Schools Achieving Success', ac eto fe'u cyhoeddwyd ar yr un diwrnod. Teimlai fod hyn, ynddo'i hun, wedi bod yn gydnabyddiaeth ac yn gyfiawnhad dros ddatganoli, gan ei bod yn bosibl nad yr un materion a fuasai o dan sylw yn y ddwy ddogfen. Yr oedd y Gweinidog wedi ei chalonogi gan yr ymateb cadarnhaol. Crybwyllodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor bod 12,000 o gopïau o ddogfen 'Y Wlad sy'n Dysgu' wedi eu ceisio.

Gofynnodd un Aelod a fyddai dyheadau'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy ar ddogfen 'Y Wlad sy'n Dysgu' yn cael eu cynnwys yn y Mesur Addysg. Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor bod dwy ffordd o gymhwyso'r ddeddfwriaeth i Gymru: drwy ddarpariaethau goddefol neu drwy gymalau i Gymru'n unig. Gan y byddai'r Mesur yn canolbwyntio ar ysgolion, mae'n bosibl na fyddai rhai o'r pethau yr oedd y Cynulliad yn eu dymuno yn cael eu cynnwys ond byddai cyfle wedyn i ymgeisio am ddeddfwriaeth i Gymru'n unig.

- Trafodwyd a fyddai'r Mesur Addysg yn cynnwys newidiadau i ddarpariaeth bresennol trafnidiaeth ysgol a oedd yn dyddio yn ôl i Ddeddf Addysg 1944. Dywedodd y Gweinidog y byddai cynnwys y Mesur yn wybyddus pan fydd pwyllgor deddfu Llywodraeth y DU wedi cytuno arno a'i gyhoeddi.

**Eitem Dau: Y Flaenraglen Waith Fanwl – Hydref 2001 a'r Flaenraglen Waith Strategol (15 munud)**

***Papurau: ELL 14-01(p.2) Y Flaenraglen Waith Fanwl***

***ELL 14-01(p.3) Y Flaenraglen Waith Strategol***

2.1 Gwahoddwyd y Pwyllgor i ystyried y flaenraglen waith fanwl ddrafft ar gyfer tymor yr hydref a hefyd y flaenraglen waith strategol, a oedd yn ymdrin â'r cyfnod hyd Ragfyr 2002.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor Busnes wedi cymeradwyo cyfarfod ychwanegol y Pwyllgor a amserlennwyd ar gyfer 8 Tachwedd 2001.
- Awgrymodd y Cadeirydd (fel yr amlinellwyd yn Adroddiad y Gweinidog) y dylai ELWa ddod gerbron y Pwyllgor i drafod ei Adolygiad Cyllido. Awgrymwyd y dylid amserlennu hynny ar gyfer 14 Tachwedd: byddai hyn yn cymryd lle'r eitem ar y Mesur Addysg. Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod eitem ar y Mesur Addysg wedi ei hamserlennu ar gyfer 28 Tachwedd. Cytunodd y Pwyllgor i'r cynnig hwn.
- Gofynnodd Gareth Jones pa bryd y byddai cyfle i drafod y Fagloriaeth Gymreig yn fanylach. Atebodd y Gweinidog ei bod wedi adrodd ar y Fagloriaeth Gymreig yn y cyfarfod hwn yn Adroddiad y Gweinidog, eto nid oedd yr Aelodau wedi codi unrhyw gwestiynau ar y mater. Yr oedd amserlen benodol mewn cysylltiad â'r Fagloriaeth Gymreig: lansiwyd y pecyn gwybodaeth ym Medi ac adeg gyfleus i'w thrafod yn y dyfodol agos fyddai Ionawr 2002 wedi i'r ysgolion a'r colegau gytuno i ragbrofi'r Fagloriaeth Gymreig.
- Holodd Mick Bates a fyddai'r eitem a amserlennwyd ar ysgolion gwledig yn cynnwys archwiliad o'r llwythi gwaith mewn ysgolion bach. Nododd y Cadeirydd fod y pwnc hwn wedi ei amserlennu ar gyfer 31 Hydref ac y byddai'n ymwneud â'r fframwaith polisi i ysgolion gwledig. Ychwanegodd y Gweinidog ei bod wedi cytuno yn y Cyfarfod Llawn i gyflwyno papur ymgynghorol i'r Pwyllgor ym mis Hydref. Nododd y Gweinidog iddi fod yn disgwyl adroddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a bod hwnnw wedi ei dderbyn wythnos yn ôl.
- Dywedodd y Gweinidog fod yr agenda ar gyfer cyfarfod 8 Tachwedd yn gymharol denau. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor am ei awgrymiadau. Awgrymodd Mick Bates eitem ar Addysg Fenter. Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y pwnc hwn yn y flaenraglen waith.
- Mynegodd Gareth Jones bryder nad oedd ond un eitem ar yr Adolygiad o'r Iaith Gymraeg a honno wedi ei chynnwys yn y rhaglen ar gyfer 12 Rhagfyr. Atgoffaodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'r Adolygiad, fel yr amlinellwyd yn y Flaenraglen Waith Strategol, yn rhedeg o Ragfyr 2001 hyd Fehefin 2002.

- Tynnodd Lorraine Barrett sylw at y ffaith y byddai'n ddefnyddiol, ar gyfer materion sydd i'w hystyried ar gyfer y tymor nesaf, pe byddai Coleg Digidol yn ymddangos ochr yn ochr â Phrifysgolion i Ddiwydiant. Awgrymodd y Gweinidog eitem ochr yn ochr â hyn oddi wrth y BBC ar ei gynigion am Gwricwlwm Digidol.

**Eitem Tri: Cofnodion Cyfarfod 11 Gorffennaf**

***Papur: ELL 13-01(mins)***

3.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol. Nid oedd sylwadau.

**Eitem Pedwar: Papur i'w Nodi: Papur Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai – Adolygiad o System Gyllid Llywodraeth Leol**

***Papur: ELL 14-01(p.4)***

4.1 Nododd y Pwyllgor y papur.

***Sesiwn Preifat***

***Wedyn ymgymerodd y Pwyllgor â'i ystyriaeth o adroddiad drafft yr Adolygiad Polisi Addysg Uwch yn breifat. Penderfynwyd hyn gan y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 8.21(vi).***

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Hydref 2001**